PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU YR AMGYLCHEDD
9 EBRILL 2019

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mawrth, 9 Ebrill 2019.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ray Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr: Sean Bibby, Chris Dolphin, Andy Dunbobbin, David Evans, Dave Hughes, Joe Johnson, Vicky Perfect, a Paul Shotton

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr: Mike Allport, Haydn Bateman, a Veronica Gay

DIRPRWYON: Y Cynghorydd Dennis Hutchinson (ar ran Colin Legg)

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Christine Jones a David Wisinger (fel arsylwyr)

CYFRANWYR: Y Cynghorydd Carolyn Thomas, Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad, y Cynghorydd Chris Bithell, Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod Y Cyhoedd, y Cynghorydd Derek Butler, Aelod Cabinet Datblygu Economaidd ac Aelod Cabinet Dros Dro Tai, Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr y Rhwydwaith Priffyrdd, Rheolwr Cyllid a Rheolwr Mynediad ac Amgylchedd Naturiol.

HEFYD YN BRESENNOL: Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

56. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni dderbyniwyd dim.

57. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2019.

Cywirdeb
Cywiriadau teipograffyddol ar dudalen 5 a thudalen 7.

PENDERFYNWYD:

Yn amodol ar y newid uchod, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

58. PARC TREFTADAETH DYFFRYN MAES GLAS

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y gwaith a wneir i gyflawni'r argymhellion sy'n codi yn yr archwiliad ar lywodraethu, cyllid a threfniadau gweithredu yn Nyffryn Maes Glas a'r sefyllfa weithredol bresennol. Rhoddodd wybodaeth gefndir a dywedodd yn dilyn yr archwiliad bod yr holl gamau wedi eu

cwblhau heblaw am arwyddo'r Cytundeb Rheoli. Roedd pawb â diddordeb wedi rhoi sylwadau ar fersiynau drafft o'r Cytundeb ac roedd yr Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i arwyddo'r Cytundeb yn ei gyfarfod Bwrdd ar 7 Mai 2019. Gwahoddodd y Prif Swyddog y Rheolwr Mynediad ac Amgylchedd Naturiol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y sefyllfa weithredol yn Nyffryn Maes Glas.

Rhoddodd y Rheolwr Mynediad ac Amgylchedd Naturiol adroddiad ar yr uchafbwyntiau gweithredol am y chwe mis diwethaf, fel y manylwyd yn yr adroddiad. Cyfeiriodd at nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus yn ddiweddar a gweithgareddau a gynhaliwyd a'r gwaith rheoli, datblygu a chynnal coetir a wnaed. Hefyd soniodd am y fenter i adolygu ffioedd mynediad i annog pobl i brynu tocynnau blynyddol drwy gydol y flwyddyn a dywedodd am Gynhadledd Dysgu Awyr Agored i weithwyr addysg proffesiynol a gynhelir yn y Dyffryn ar 4 Ebrill.

Dywedodd y Rheolwr Mynediad ac Amgylchedd Naturiol bod gwasanaeth Strydwedd y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau bron i £700k drwy Grant Teithio Llesol Llywodraeth Cymru i'r Dyffryn fyddai'n gwella cysylltiadau a chyfathrebu. Eglurodd mai'r cam cyntaf fyddai ailwynebu'r llwybr ar hyd yr hen reilffordd i faes parcio ffordd yr arfordir. Byddai ceisiadau pellach yn cael eu cyflwyno fyddai'n cynnwys cynigion i wella'r cysylltiadau o'r Dyffryn i Ysgol Treffynnon ac o'r Dyffryn i Doc Maes Glas.

Wrth gwblhau ei ddiweddariad dywedodd y Rheolwr Mynediad ac Amgylchedd Naturiol bod y Dyffryn yn dibynnu ar wirfoddolwyr rheolaidd oedd yn cynorthwyo i reoli'r safle ac eglurodd bod Dyffryn Maes Glas wedi cofrestru i ddosbarthu credydau amser i wirfoddolwyr. Roedd y cynllun yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o brosiect penodol yn Sir y Fflint a Wrecsam am y ddwy flynedd nesaf. Roedd y fenter yn galluogi i wirfoddolwyr dderbyn credydau papur am eu hamser y gellir ei wario mewn cyfleusterau a busnesau a gofrestrwyd ar draws y DU.

Awgrymodd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) efallai y byddai'r Pwyllgor yn dymuno cynnal cyfarfod yn y dyfodol yn Nyffryn Maes Glas a manteisio ar y cyfle i gael taith o amgylch y Dyffryn a'r cyfleusterau a ddarparwyd yr un pryd.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Chris Dolphin y Prif Swyddog a'r Rheolwr Mynediad ac Amgylchedd Naturiol a'i dîm am eu gwaith ardderchog a'r cynnydd a wnaed o ran yr argymhellion archwilio yn ddiweddar. Dywedodd am gyllideb flynyddol y Cyngor i reoli'r safle a oedd oddeutu £300k a dywedodd fod hyn yn werth am arian, fodd bynnag mynegodd ei siom nad oedd y Cytundeb Rheoli wedi'i arwyddo gan yr Ymddiriedolaeth Dyffryn Maes Glas eto a dywedodd fod hyn yn annerbyniol. Hefyd llongyfarchodd y Cynghorydd Dolphin swyddogion ar lwyddiant sicrhau'r grant £700k a sicrhawd drwy'r cynllun Teithio Llesol gan Lywodraeth Cymru a dywedodd fyddai'n cael effaith sylweddol ar y Dyffryn. Dywedodd y Cynghorydd nad oedd yn meddwl bod angen dod ag adroddiadau diweddariad pellach i gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn y dyfodol, oherwydd y cynnydd cadarnhaol a wnaed. Ailadroddodd y Cynghorydd Dunbobbin y farn a fynegwyd gan y Cynghorydd Dolphin ar y gwaith ardderchog a'r cynnydd a wnaed gan Swyddogion ac awgrymodd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn

cael eu newid i adlewyrchu hyn. Hefyd soniodd am y gwaith cadarnhaol a wnaed gan swyddogion mewn cydweithrediad â Chyfamod y Lluoedd Arfog.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Paul Shotton y Swyddogion am adroddiad cadarnhaol a llongyfarchodd Swyddogion ar y fenter i symleiddio'r strwythur tâl mynediad i'r Dyffryn a chanlyniad llwyddiannus y cais am Grant Teithio Llesol gan Lywodraeth Cymru.

Dywedodd y Cynghorydd Dave Hughes bod angen arwyddion gwell i Ddyffryn Maes Glas ar yr A55 fyddai'n annog mwy o ymwelwyr i'r ardal. Roedd y Cynghorydd Carolyn Thomas yn cydnabod y pwynt a dywedodd y byddai'n mynd ar drywydd hyn yn dilyn y cyfarfod.

Siaradodd y Cynghorydd Chris Bithell am y dreftadaeth ddiwydiannol a gwerth hanesyddol Dyffryn Maes Glas a dywedodd ei fod yn bwysig fod pobl yn gallu cael mynediad rhwydd i'r Dyffryn a'r cyfleusterau sydd ar gael. Awgrymodd y dylid rhoi ystyriaeth i ddarparu cludiant i bobl â phroblemau symud oedd naill ai'n methu cerdded neu feicio ar hyd llwybr y Dyffryn. Roedd y Cynghorydd Carolyn Thomas yn cydnabod y sylwadau a chytunwyd y gellid ystyried yr awgrym os byddai cyllid ac adnoddau ar gael.

Awgrymodd y Prif Swyddog bod adroddiad pellach i roi diweddariad i'r Pwyllgor ar gynnydd i fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad archwilio diweddar yn cael ei gyflwyno mewn chwe mis a bod cyfarfod Archwilio yn cael ei gynnal yn y Dyffryn yn yr hydref.

Roedd y Cynghorydd Paul Shotton yn cynnig yr argymhelliad gyda'r newid a awgrymwyd gan y Cynghorydd Andy Dunbobbin.

PENDERFYNWYD:

(a) Bod y Pwyllgor yn croesawu'r diweddariad a'r cynnydd i fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad archwilio yn ddiweddar;

(b) Bod pawb fu'n ymwneud â'r newidiadau yn cael eu llongyfarch gan y Pwyllgor;

(c) Bod datganiad i'r wasg yn cefnogi'r cynnydd yn cael ei ddrafftio; a

(d) Bod cyfarfod o'r Pwyllgor, i gynnwys diweddariad pellach ar fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad archwilio Dyffryn Maes Glas a thaith o amgylch cyfleusterau'r dyffryn yn cael ei gynnal mewn chwe mis.

59. GORFODI AMGYLCHEDDOL

Cyn ystyried yr adroddiad ar Orfodaeth Amgylcheddol dosbarthodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) nodyn atodol i'r Pwyllgor ar incwm o Rybuddion Cosb Benodedig.

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) adroddiad i adolygu Polisi Gorfodaeth y Cyngor ar sbwriel. Rhoddodd wybodaeth gefndir a dywedodd yn dilyn adolygiad diweddar o Wasanaeth Gorfodi Amgylcheddol y Cyngor, roedd

Swyddogion Gorfodi'r Cyngor ei hun yn gyfrifol am orfodi'n ymwneud â throseddau amgylcheddol llai difrifol (gweld rhywun yn taflu sbwriel a chŵn yn baethu er enghraifft). Aeth ymlaen gan ddweud fod y Cabinet wedi gofyn am adnewyddu'r protocol ar gyfer cyhoeddi Rhybuddion Cosb Benodedig ac yn arbennig y dull dim goddefgarwch a fabwysiadwyd yn flaenorol gan dimau gorfodi'r Cyngor a weithredwyd yn llym ar draws y Sir. Dywedodd y Prif Swyddog fod yr adroddiad yn rhoi eglurder ar y dull ar gyfer gweithgareddau gorfodi yn y dyfodol a gwahoddodd y Rheolwr Gwasanaeth Rheoleiddio i gyflwyno'r adroddiad.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Rheoleiddio am y prif ystyriaethau fel y manylwyd yn yr adroddiad. Cyfeiriodd at y gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno Rhybudd Cosb Benodedig lle roedd gan Swyddogion Gorfodi reswm i gredu bod unigolyn wedi troseddu a bod yna dystiolaeth ddigonol a phriodol i gefnogi erlyniad yn y llys os na fyddai Rhybudd Cosb Benodedig yn cael ei dalu. Eglurodd na fyddai taflu sbwriel yn ddamweiniol yn derbyn sylw drwy Rybudd Cosb Benodedig. Gan gyfeirio at reoli cŵn, eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio bod rheoli cŵn yn parhau mewn ardaloedd cyhoeddus, gan gynnwys ardaloedd oedd yn destun Gorchymyn Man Agored Cyhoeddus, oedd yn cynnwys swyddogion mewn dillad plaen.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Rheoleiddio bod Swyddogion Gorfodi Cyngor Sir Y Fflint yn gyfrifol am batrolio ar draws pob ardal o'r Sir i sicrhau bod pob ward yn derbyn lefel briodol a rhesymol o bresenoldeb gorfodaeth, fodd bynnag, ni ellir gwarantu presenoldeb dyddiol ym mhob ardal. Aeth ymlaen gan ddweud yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2018, bod argymhelliad wedi'i wneud y dylid rhoi ystyriaeth i Gynghorau Tref a Chymuned ariannu Swyddogion Gorfodi ychwanegol o fewn eu hardaloedd. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Rheoleiddio er mwyn asesu'r lefel o ddiddordeb yn y cynnig y byddai'r Cyngor yn cysylltu â phob Cyngor Tref a Chymuned a chynnig y cyfle i dalu am amser swyddog ychwanegol yn eu hardaloedd ar gyfradd ddyddiol y cytunir arni i gymryd i ystyriaeth y byddai holl refeniw a gynhyrchwyd drwy'r Rhybuddion Talu Cosb yn cael eu cynnal gan y Cyngor Sir. Ar ôl cysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned byddai ymarfer yn cael ei gynnal i bennu cynaliadwyedd cynllun ac ystyried pa un a ellir gweithredu'r prosiect gyda niferoedd staffio presennol neu a fyddai angen recriwtio Swyddogion ychwanegol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Andy Dunbobbin at y wybodaeth atodol a ddosbarthwyd i'r Pwyllgor yn y cyfarfod a mynegodd bryderon am y cyfeiriad at darged incwm o £20k y flwyddyn, oedd yn cyfateb i 266 Rhybudd Cosb Benodedig bob blwyddyn. Roedd yn cydnabod yr angen i orfodi camau yn erbyn troseddau amgylcheddol lefel isel gyda bwriad ond dywedodd nad oedd cyflwyno Rhybuddion Cosb Benodedig wedi'i fwriadu fel ymarfer creu incwm. Dywedodd y Prif Swyddog nad oedd yna dargedau misol wedi eu gosod i Swyddogion a byddai'r nifer o Rybuddion Cosb Benodedig a gyflwynwyd yn amrywio bob mis. Eglurodd bod y ffigyrau a ddarparwyd yn ddangosol yn seiliedig ar y nifer o rybuddion a gyhoeddwyd yn flaenorol. Dywedodd y Prif Swyddog y byddai' Cyngor yn dibynnu ar farn broffesiynol ei Swyddogion Gorfodi i gael cydbwysedd rhwng addysg a gorfodi a'r camau a ddefnyddir fyddai'r Cyngor yn cymryd camau priodol yn erbyn pobl oedd yn taflu sbwriel yn fwriadol neu ddim yn gwaredu baw cŵn yn briodol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Chris Dolphin at y canllawiau yn yr adroddiad os ystyrir bod unigolyn wedi gollwng sbwriel yn fwriadol ac wedi cerdded 5 metr i ffwrdd o'r sbwriel yna cymerir camau gorfodi, ac awgrymwyd y dylid gostwng y peller i 3 metr. Eglurodd Rheolwr Gwasanaeth Rheoleiddio bod y pellter a nodwyd yn ganllaw cyffredinol yn unig ac os oedd unigolyn wedi gollwng sbwriel byddent yn cael cyfle i godi'r gwastraff yn briodol. Dywedodd bod y pwyslais ar gydbwysedd rhwng addysg a gorfodi.

Dywedodd y Cynghorydd Dolphin am lefel presenoldeb gorfodaeth i reoli parcio a gweithgareddau gorfodaeth amgylcheddol eraill. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth Rheoleiddio bod patrymau sifft ac amseroedd dechrau a gorffen swyddogion wedi newid yn ystod misoedd yr haf a'r gaeaf i gydfynd â newid mewn gweithgareddau dyddiol y cyhoedd a gwybodaeth yn ymwneud â materion cylchol.

Mynegodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson bryderon am faterion baw cŵn a dywedodd ei bod yn broblem barhaus yn ei Ward. Mynegodd bryderon pellach ynglŷn â rheoli cŵn a dywedodd am risg i ddiogelwch gyda chŵn heb fod ar denyn neu dan reolaeth mewn mannau cyhoeddus. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth Rheoleiddio bod patrolio rheoli cŵn yn parhau mewn mannau cyhoeddus, gan gynnwys ardaloedd oedd yn destun Gorchymyn Man Agored Cyhoeddus, ac roedd swyddogion yn siarad gyda cherddwyr cŵn i roi gwybodaeth ar ardaloedd allgau a sut i gael gwared ar faw cŵn yn briodol. Dywedodd fod yna 7 o Swyddogion Gorfodi Amgylcheddol a'u rolau cyfunol yn cynnwys gweithgaredd gorfodi ar gyfer troseddau amgylcheddol. Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal gydag awdurdodau cyfagos i rannu rhai swyddogaethau cefn swyddfa o bosibl a all ryddhau cyllid i gynyddu'r nifer o swyddogion rheng flaen i wneud gweithgaredd gorfodi yn y dyfodol.

Roedd y Cynghorydd Carolyn Thomas yn cydnabod y pryderon a godwyd gan y Cynghorydd Hutchinson a dywedodd am yr angen i weithio'n agos gyda chymunedau lleol a chydlynwyr ardal i gasglu gwybodaeth ar faterion ailadroddus ac ardaloedd problemus, yn arbennig o ran baw cŵn.

Awgrymodd y Cynghorydd Joe Johnson bod arwyddion ychwanegol yn cael eu defnyddio mewn ardaloedd lle roedd baw cŵn i hysbysu'r cyhoedd bod yr ardal yn cael ei monitro a'r angen i waredu baw cŵn yn briodol. Trafodwyd mesurau posibl eraill gan gynnwys y defnydd o baent chwistrellu, dyfeisiau sain a stensilau i amlygu ardaloedd problemus.

Dywedodd y Cynghorydd Sean Bibby am y gost i'r Awdurdod ddarparu gwasanaethau glanhau a gweithgareddau rheoli gorfodi a phwysleisiwyd pwysigrwydd cyfathrebu gwell ac ymgyrchoedd addysgol gyda'r cyhoedd i addysgu a hysbysu'r cyhoedd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd David Evans at y cynnig i gysylltu â phob Cyngor Tref a Chymuned i roi'r cyfle i dalu am amser Swyddogion Gorfodi ychwanegol yn eu hardaloedd a mynegwyd pryderon na fyddai gan rai Cynghorau Tref a Chymuned yr adnoddau ariannol i ymuno â'r cynllun. Dywedodd y Cynghorydd Carolyn Thomas y byddai pob Cyngor Tref a Chymuned yn parhau i dderbyn

gwasanaeth ac na fyddai cyllid ar gyfer presenoldeb gorfodi ychwanegol yn effeithio ar y rotau presennol a'r drefn bresennol mewn ardal.

Roedd y Cynghorydd Chris Bithell o'r farn y dylid cymryd camau mwy llym yn erbyn trosedd amgylcheddol ac unigolion oedd yn troseddu'n amgylcheddol yn fwriadol. Roedd yn ategu sylwadau'r Cynghorydd Sean Bibby ynglŷn â'r gost i'r Awdurdod o ddarparu gwasanaeth gorfodi a 'glanhau' yn ystod cyni cyllidol a dywedodd y bu dirywiad mewn safonau cyhoeddus y teimlodd fyddai'n parhau oni bai bod mesurau gorfodi effeithiol a chadarn yn cael eu gweithredu.

Dywedodd y Cadeirydd am yr angen i addysgu plant ifanc i atal problemau o'r fath rhag codi yn y dyfodol ac awgrymodd y dylid cysylltu ag ysgolion cynradd yn Sir y Fflint i weld a oedd ganddynt ddiddordeb. Eglurodd y Rheolwr Rhaglen bod llythyr wedi'i anfon at benaethiaid pob ysgol uwchradd yn Sir y Fflint gyda gwahoddiad i dderbyn cyflwyniad gan y tîm gorfodi ac roedd rhai ysgolion wedi derbyn y gwahoddiad. Hefyd cyfeiriodd at y wybodaeth a oedd ar gael drwy grwpiau a sefydliadau eraill i godi ymwybyddiaeth mewn ysgolion ac ymhlith y cyhoedd.

Mewn ymateb i'r awgrym gan y Cadeirydd i ymgymryd â gwaith gyda disgyblion mewn ysgolion cynradd cytunodd y Prif Swyddog y gellir gwneud gwaith rhagweithiol rhwng cydlynwyr ardal lleol ac ysgolion cynradd. Awgrymodd y Prif Swyddog bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol i roi diweddariad ar y nifer o Rybuddion Cosb Benodedig a gyflwynwyd.

Dywedodd y Cynghorydd Paul Shotton bod yr ysgolion cynradd ac uwchradd yn ei ward ef wedi bod yn frwdfrydig ynglŷn â chymryd rhan mewn gweithgareddau amgylcheddol a gorfodi. Dywedodd fod trigolion lleol wedi bod yn gadarnhaol hefyd yn gwirfoddoli i fonitro eu hardal leol. Cyfeiriodd y Cynghorydd Andy Dunbobbin at y gwaith a wnaed drwy fentrau a chynlluniau cymunedol a chyfeiriodd at y cynllun 'Ein Iard Gefn' fel enghraifft.

Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r fenter ac yn argymell i'r Cabinet ei fod yn cymeradwyo'r protocol a fanylwyd o fewn yr adroddiad ar gyfer troseddau lefel isel a'r mater Rhybuddion Cosb Benodedig ar gyfer troseddau baw cŵn a sbwriel.

PENDERFYNWYD:

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r fenter ac yn argymell i'r Cabinet ei fod yn cymeradwyo'r protocol a fanylwyd o fewn yr adroddiad ar gyfer troseddau lefel isel a'r mater Rhybuddion Cosb Benodedig ar gyfer troseddau baw cŵn a sbwriel.

(b) Bod y Pwyllgor yn argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig i roi'r cyfle i Gynghorau Tref a Chymuned gefnogi Swyddogion Gorfodi ychwanegol yn eu hardaloedd.

60. STRATEGAETH TOILEDAU LLEOL

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) adroddiad i geisio argymhelliad i'r Cabinet gymeradwyo Strategaeth Toiledau Lleol y Cyngor yn

dilyn y cyfnod ymgynghori. Darparodd wybodaeth gefndir a gwahoddodd y Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd i gyflwyno'r adroddiad.

Dywedodd y Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd bod yr ymgynghoriad statudol ar gyfer y Strategaeth Toiledau Lleol arfaethedig yn agored ers 4 Chwefror 2019 gyda'r dyddiad cau ar gyfer adborth ar y strategaeth ddrafft yn 26 Ebrill 2019. Hyd yma roedd yr ymgynghoriad wedi derbyn 195 o ymatebion ac roedd copi o'r Strategaeth ddrafft ynghlwm i'r adroddiad. Roedd y strategaeth arfaethedig yn cynnwys cynllun gweithredu 12 pwynt ar gyfer y ddwy flynedd a gofynnwyd i'r Pwyllgor ganolbwyntio ar bump maes penodol, fel y manylwyd yn yr adroddiad oedd yn sail i'r strategaeth.

Cyfeiriodd y Cynghorydd David Evans at dudalen 44 o'r adroddiad a'r sgôr asesiad o anghenion i Shotton a gofynnwyd pa gamau a gymerir i fynd i'r afael â'r angen am ddarpariaeth toiledau yn Shotton. Eglurodd y Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd fod Shotton wedi'i nodi fel ardal oedd angen cyfleusterau toiledau gan nad oedd yna unrhyw gyfleusterau ymroddedig presennol yn cael eu darparu ac nid oedd yna gyfleoedd i ddefnyddio darpariaeth toiledau yn adeiladau'r Cyngor fel llyfrgelloedd, canolfannau cyswllt na chanolfannau hamdden.

Dywedodd y Cynghorydd Chris Dolphin nad oedd y toiledau cyhoeddus yn Nhreffynnon yn agored ar benwythnos a dywedodd ei fod o blaid trefniadau amgen oedd yn dibynnu ar ymgysylltu â busnesau lleol i ddarparu cyfleusterau toiledau. Dywedodd oni bai bod yna gymhelliad ariannol llawer gwell gan Lywodraeth Cymru roedd yn annhebygol y byddai busnesau lleol yn ystyried y cynnig a wnaed i fod yn un buddiol. Siaradodd am anghenion pobl hŷn, pobl â phroblemau symudedd ac iechyd a phlant bach, a dywedodd nad oedd bob amser yn ymarferol cael mynediad i gyfleusterau presennol a ddarperir yn adeiladau'r Cyngor. Siaradodd am yr angen i ddarparu toiledau hygyrch i'r cyhoedd o fewn canol trefi i ddiwallu anghenion pobl sy'n ymweld â'u stryd fawr lleol i siopa.

Dywedodd y Prif Swyddog y bu ymateb gwael gan fusnesau lleol yn gyffredinol fel modd o gynyddu darpariaeth cyfleusterau ychwanegol yn y gymuned ac felly roedd angen ystyried darpariaeth amgen.

Roedd y Cynghorydd David Evans yn cynnig yr argymhellion. Roedd y Cynghorydd Paul Shotton yn eilio.

PENDERFYNWYD:

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith a gwblhawyd hyd yma a'r ymgynghoriad statudol cyhoeddus parhaus ar y Strategaeth Toiledau Lleol; a

(b) Bod ymatebion y Pwyllgor i'r pedwar cwestiwn yn yr adroddiad yn cael eu defnyddio i ddatblygu'r Strategaeth Toiledau Lleol ymhellach.

61. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i'w hystyried. Dywedodd y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 21 Mai

2019 ym Mharc Gwepra, Ystafell Yr Ardd, Cei Connah er mwyn ystyried yr eitemau canlynol:

- diweddariad ar lwybr beiciau'r Wyddgrug i Frychdyn
- adroddiad cynnydd ar derfynau cyflymder y tu allan i ysgolion ac "20 yn ddigon".

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn dilyn cytundeb y Pwyllgor, y byddai cyfarfod o'r Pwyllgor, gan gynnwys taith yn cael ei gynnal yn Nyffryn Maes Glas yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

PENDERFYNWYD:

(a) Bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol drafft yn cael ei chymeradwyo;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Bod cyfarfod o'r Pwyllgor, fyddai'n cynnwys taith, yn cael ei gynnal yn Nyffryn Maes Glas yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

62. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol ac nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 11.39 am)

.....

Cadeirydd